

Eisteddfod Myddfai 2018

Eleni, oherwydd fod priodas yn cael ei chynnal yn Neuadd y pentre' ym Myddfai a hynny ar union ddyddiad eisteddfod Myddfai, doedd dim amdani ond dewis adeilad arall yng nghyffiniau'r pentre' i gynnal ein Steddfod. Yr adeilad amlwg oedd Capel Seion, Myddfai, a diolch i bawb a fu wrthi'n glanhau a thwtio'r capel i'w wneud yn adeilad "digon dymunol" (yng ngeiriau Defi John Williams, Beiliglas, gynt) i gynnal eisteddfod ynddo.

Agorwyd y drysau am 6.30 ar yr 11fed o Fai a braf oedd gweld cymaint o blant ifanc yn cerdded trwy'r drysau yn barod i ganu neu i lefaru, gan obeithio llwyddo i blesio'r beirniaid. Roeddem yn lwcus iawn i ddenu Lynne Bryer o Langors, Aberhonddu i feirniadu'r cystadleuthau cerdd, a Geraint Roberts o Gwmffrwd yn feirniad llefaru a llên. Llywydd yr eisteddfod eleni oedd J. Alun Davies Ysw. Fel arfer, roeddem yn ddiolchgar iawn i Mrs. Elaine Robbins, Llanymddyfri am gytuno i gyfeilio'r cantorion hen ac ifanc!

Agorwyd y cystadlu gan blant blwyddyn 1 a 2 a braf oedd eu clywed yn gwneud eu gorau glas i blesio'r beirniad llefaru. Y buddugol oedd Iestyn Evans, Pentrefelin, a daeth merch leol, sef Siân Morgans, Llwynceilyn, Seilo, yn ail, a Tirion Thomas, Pencader yn 3ydd.

Yn y gystadleuaeth i ganu unawd, daeth Iestyn Ifans, Pentrefelin, yn gyntaf, Anest Jones heol Senni yn ail, a Tirion Thomas, Pencader yn drydydd.

Ella Gruffudd Jones ddaeth yn gyntaf am ganu unawd i blant blwyddyn 3 a 4, a daeth Alis Mabbut yn ail yn y gystadleuaeth.

Cafwyd cystadlu brwd yn y gystadleuaeth i blant blwyddyn 5 a 6 a dyfarnwyd y wobwr gyntaf i Ioan Mabbut, yr ail i Elan Mabbut a'r drydedd wobwr i'w rannu rhwng Swyn Davies ac Owain Evans.

Ioan Mabbut o Aberystwyth ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth unawd i blant blwyddyn 5 a 6 tra roedd Elan Mabbut yn ail ac Owain Evans yn 3ydd.

Braf oedd gweld merch leol, sef Elen Williams o Lanymddyfri yn dod i'r brig yn y gystadleuaeth i blant blwyddyn 7, 8 a 9, a Megan Davies o Langadog yn ennill yr unawd i blant blwyddyn 7, 8 a 9.

Llongyfarchiadau gwresog i Ioan Mabbut am ennill y gystadleuaeth llefaru dan 18 oed, yn ogystal â'r unawd dan 18 oed. Yn ogystal, cafodd Ioan, Elan ac Alys Mabbut y wobwr gyntaf yn y gystadleuaeth i barti unsain dan 18 oed. Yn ogystal, Alis Mabbut ddaeth i'r brig am ateb chwe cwestiwn dan 16 oed.

Yng nghystadleuaeth unawd offeryn dan 18, cafodd Ellie Davies o Langadog y wobwr gyntaf a Megan ei chwaer a gipodd yr ail safle : Llongyfarchiadau i'r ddwy chwaer ac i Abner Evans o Myddfai a ddaeth yn drydydd.

Llongyfarchiadau i Megan Davies a Ioan Mabbut a ddyfarnwyd yn gydradd yn y gystadleuaeth alaw werin dan 18 oed.

Cawsom fwynhad arbennig o glywed perfformiad hyfryd Carys Richards o Landeilo yn canu cân allan o sioe gerdd, a llongyfarchion iddi am ennill y gystadleuaeth canu emyn dan 65 oed.

Glasnant Dafydd, o Abergorlech ddaeth i'r brig eleni eto am adrodd stori ddoniol, a chipiwyd yr ail wobwr gan Elan Mabbut.

Llongyfarchiadu i Ann Watkins o Graig y Nos am ennill y wobwr gyntaf am ganu alaw werin ac i Jean Hughes a'i chyfaill am ennill y gystadleuaeth am ganu deuawd.

Daeth tair gwraig ymlaen i roi tro ar yr Her Adroddiad ac Ann Watkins o Graig y nos a ddaeth i'r brig, gyda Brynferch yn ail a Maria Evans, Alltwalis, yn drydydd.

Helen Pugh o Landeilo a gipiodd y wobwr yng nghystadleuaeth yr her unawd.

Braf oedd cael cwmni Côr Meibion Llanymddyfri wrth i'r noson ddirwyn i ben a llongyfarchiadau iddynt am gael eu dyfarnu'n llawn haeddu'r wobwr.

Yn yr adran gyfansoddi dyfarnwyd y canlyniadau isod:

Englyn ar y testun "Y Bugail": John Rhys Evans

Brawddeg o'r gair Cwibrân: Mary B Morgan, Llanrhystud

Telyneg neu Soned: Gwreichion : Gaenor Mai Jones, Caerdydd

Neges destun ar y llythyren 'M' : Llinos Jones, Llandyfaelog a Mary B Morgan

Geiriau carol ar gyfer y Nadolig: Mary B Morgan a Megan Richards, Aberaeron (cydradd)

. Gorffen Limerig: Mi es i ryw noson i ddawnsio: Handel Evans , Llangefni a Mrs. Eileen Powell, Myddfai

. Portread o hen gymeriad cefn gwlad: ennillwyd gan John Meurig Edwards, Aberhonddu

. Cân ddigri: *Y sioe gan Megan Richards, Aberaeron.*